OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 2909

# Rheoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003

## RHAN 2

## SEFYDLU, CYFANSODDIAD, CYFARFODYDD A THRAFODION

### Sefydlu fforwm ysgolion

**2.** Rhaid i bob awdurdod addysg lleol, yn unol â'r Rheoliadau hyn, sefydlu fforwm ysgolion i'w ardal erbyn 15 Rhagfyr 2003.

### Aelodau: cyffredinol

**3.**—(1) Rhaid bod o leiaf 15 o aelodau mewn fforwm wedi eu penodi gan yr awdurdod perthnasol.

(2) Ni chaiff yr awdurdod perthnasol benodi mwy na chwarter holl aelodau'r fforwm yn aelodau o'r tu allan i'r ysgolion i gynrychioli cyrff perthnasol.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i'r fforwm gynnwys aelodau ysgolion yn unig.

(4) Rhaid i aelodau ysgolion ac aelodau o'r tu allan i'r ysgolion gael eu penodi drwy offeryn ysgrifenedig i fod yn aelod am dymor a bennir yn yr offeryn hwnnw.

(5) Caiff yr awdurdod perthnasol ddod ag aelodaeth unrhyw aelod ysgolion i ben cyn i'w dymor aelodaeth ddod i ben os nad yw'r aelod dan sylw bellach yn bennaeth neu yn llywodraethwr yr ysgol a gynhelir gan yr awdurdod perthnasol y bu'n gymwys i gael ei benodi i'r fforwm o'i herwydd.

(6) Caiff yr awdurdod perthnasol ddod ag aelodaeth unrhyw aelod o'r tu allan i'r ysgolion i ben os nad yw bellach yn bodloni'r meini prawf cymhwyso y bu'n gymwys i gael ei enwebu ar gyfer ei benodi i'r fforwm o'u herwydd.

### Ethol a phenodi'r aelodau ysgolion

**4.**—(1) Rhaid i'r awdurdod perthnasol benodi, i fod yn aelodau ysgolion, gynrychiolwyr ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod perthnasol sydd wedi eu hethol yn unol â gweithdrefnau a bennir gan yr awdurdod perthnasol.

(2) Wrth bennu'r gweithdrefnau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) —

(a) rhaid i'r awdurdod perthnasol wneud trefniadau er mwyn sicrhau bod aelodau ysgolion yn cynnwys nifer gyfatebol o gynrychiolwyr ysgolion cynradd ac o gynrychiolwyr ysgolion uwchradd, wedi ystyried cyfanswm y disgyblion sydd yn yr ysgolion cynradd, cyfanswm y disgyblion sydd yn yr ysgolion uwchradd a chyfanswm yr aelodau ysgolion sydd i gael eu hethol o dan y gweithdrefnau hynny sydd i fod yn gynrychiolwyr ysgolion cynradd ac uwchradd;

(b) os yw'r awdurdod perthnasol yn cynnal un neu fwy o ysgolion arbennig, rhaid iddo sicrhau bod o leiaf un aelod ysgolion yn cynrychioli ysgol o'r fath; ac

(c) os yw'r awdurdod perthnasol yn cynnal ysgolion o wahanol gategorïau ysgol, rhaid i'r trefniadau a wneir gan yr awdurdod yn rhinwedd is-baragraff (a) sicrhau bod y

cynrychiolwyr ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd a benodir ganddo yn cynnwys o leiaf un person sy'n gynrychiolydd ysgol ym mhob categori ysgol o'r fath.

(3) At ddibenion paragraff 2(c), mae'r canlynol yn gategorïau ysgol —

(a) ysgolion cymunedol;

(b) ysgolion sefydledig; ac

(c) ysgolion gwirfoddol.

(4) Rhaid i'r awdurdod perthnasol sicrhau i'r graddau y mae'n ymarferol bod o leiaf un aelod ysgolion yn rhiant-lywodraethwr.

(5) Yn y rheoliad hwn —

(a) ystyr "ysgol gynradd" ("*primary school*") yw ysgol gynradd a gynhelir gan yr awdurdod perthnasol ond heb gynnwys ysgol feithrin;

(b) ystyr "ysgol uwchradd" ("*secondary school*") yw ysgol uwchradd a gynhelir gan yr awdurdod perthnasol;

(c) ystyr "cynrychiolwr" ("*representative*") yw pennaeth neu lywodraethwr ysgol a gynhelir gan yr awdurdod perthnasol;

(ch) ystyr "ysgol arbennig" ("*special school*") yw ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig.

## Penodi'r aelodau o'r tu allan i'r ysgolion

**5.**—(1) Os yw'r awdurdod perthnasol yn penderfynu penodi aelodau o'r tu allan i'r ysgolion yn aelodau'r fforwm, rhaid iddo ofyn i gyrff perthnasol am enwebiadau ar gyfer yr aelodau hynny.

(2) Ni chaiff corff perthnasol enwebu rhywun os nad yw'n bodloni'r meini prawf cymhwyso.

(3) O fewn mis ar ôl penodi unrhyw aelod a enwebwyd o dan baragraff (1), rhaid i'r awdurdod perthnasol roi gwybod i gorff llywodraethu pob ysgol y mae yn ei chynnal am enw'r aelod a'r corff perthnasol mewn cysylltiad â'r penodiad hwnnw.

(4) Wrth benodi aelodau o'r tu allan i'r ysgolion o dan baragraff (1), rhaid i'r awdurdod perthnasol, os yw o'r farn y byddai'n briodol, ofyn am enwebiadau —

(a) gan Fwrdd Addysg Esgobaethol unrhyw esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru y mae unrhyw ran ohoni yn ardal yr awdurdod perthnasol;

(b) gan esgob unrhyw esgobaeth yr Eglwys Gatholig Rufeinig y mae unrhyw ran ohoni yn ardal yr awdurdod perthnasol; ac

(c) gan undebau athrawon ac undebau llafur eraill y mae ganddynt aelodau sy'n gweithio yng Nghymru.

## Cyfarfodydd a thrafodion y fforwm ysgolion

**6.**—(1) Mae'r fforwm â chworwm os yw o leiaf deugain y cant o'i holl aelodau yn bresennol mewn cyfarfod.

(2) Y fforwm sydd i ethol ei gadeirydd cyntaf a'i olynwyr.

(3) Bydd y cadeirydd yn dal y swydd am flwyddyn (ond ceir ei ailbenodi).

(4) Caiff Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant(**1**) enwebu arsylwr a bydd yr hawl ganddo i fynychu holl gyfarfodydd y fforwm.

(**1**) Sefydlwyd Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant o dan adran 30 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000, p.21.

(5) Caiff yr awdurdod perthnasol os yw o'r farn y byddai'n briodol i gorff penodol gael yr hawl i fynychu cyfarfodydd y fforwm fel arsylwr, wahodd y corff hwnnw i enwebu person i fynychu cyfarfodydd y fforwm i'r diben hwnnw.